# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15 - 09.30)

## Cyfarfod preifat

(09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2023-2024

(09.30 - 11.00)

Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiynydd Plant Cymru 2023-2024

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

### 3.1 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalennau 1 - 3)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 17 Hydref 2024

### 3.2 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalen 4)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

### 3.3 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(Tudalennau 5 - 16)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

### 3.4 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalennau 17 - 21)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor y Gweithlu Addysg yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 9 Hydref 2024

### 3.5 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

(Tudalennau 22 - 24)

Dogfennau atodol:

Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfodydd cyfan ar 28 Tachwedd a 4 Rhagfyr.

(11.00)

## Egwyl

(11.00 - 11.15)

## Cyfarfod preifat

(11.00 - 12.15)

## 5 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2023-2024 - trafod y dystiolaeth

(11.15 - 11.25)

## 6 Plant a phobl ifanc ar yr ymylon - trafod yr adroddiad drafft

(11.25 - 12.15)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Tystiolaeth Ychwanegol**

Yn ystod sesiwn dystiolaeth ar 17eg Hydref 2024 trafodwyd ychydig ar gynlluniau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gefnogi Dysgu Cymraeg i'r Gweithlu Addysg.

Holwyd yn benodol ar y dulliau y byddai'n posib eu defnyddio wrth weithredu cynllun i gefnogi Dysgu Cymraeg i'r Gweithlu Addysg i'r dyfodol.

Dyma gynnig fanylion ychwanegol i'r Pwyllgor yn ychwanegol at yr hyn a gyflwynwyr yn y sesiwn dystiolaeth.

**Cefndir**

Yn nhymor y Gaeaf 2023 cynhaliodd y Ganolfan astudiaeth o'r cyfleoedd cyfredol i'r Gweithlu Addysg ddysgu a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Roedd yr Astudiaeth yn seiliedig ar ddadansoddiad o ffeithiau a chyfweliadau a gynhaliwyd gan ystod eang o bartneriaid gan gynnwys y Cyngor Gweithlu Addysg, Cyfarwyddwyr Addysg a chynrychiolwyr o ranbarthau.

Cyflwynodd y Ganolfan yr Astudiaeth, ynghyd â'r argymhellion at Adran Addysg Llywodraeth Cymru ar gychwyn 2024, gan dderbyn £500,000 o gyllid ar gyfer darparu rhaglen genedlaethol i ddysgu a datblygu'r Gymraeg i'r Gweithlu Addysg ar gyfer blwyddyn ariannol 24-25.

Mae'r Ganolfan o'r farn y dylid ystyried cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau yn y Gymraeg fel rhan lawn o'r egwyddor o Ddysgu Proffesiynol. Mae gwella sgiliau Cymraeg y Gweithlu Addysg yn dull pendant o weithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru, y Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn ddull o godi safonau Llythrennedd Cymraeg plant a phobl ifanc.

**Egwyddorion**

Wrth lunio'r cynnig penderfynwyd ar ambell egwyddor craidd:

- Bod y cynnig yn un cenedlaethol, ac ar gael i aelodau'r Gweithlu Addysg ym mhob Ysgol yng Nghymru
- Bod elfen o'r cynnig yn rhoi ffocws mwy dwys ar weithio gydag ysgolion/clystyrau o ysgolion ble mae newid ieithyddol wedi'i gynllunio drwy Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdodau Lleol
- Bod y cyrsiau yn rhoi ffocws ar fethodoleg dysgu a ellid ei roi ar waith mewn ystafell ddosbarth, a hynny er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gynnydd plant a phobl ifanc yn y Gymraeg
- Bod pob cwrs yn seiliedig ar Gwricwlwm Dysgu yn Ganolfan, sydd wedi'i alino gyda'r CEFR, ac felly'n ystyrlon o ran ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn diffinio data ynghylch safonau unigolion yn y Gymraeg a geir drwy'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Addysg a'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith i ymarferwyr addysg

**Cynnig**

O ran cynnwys, mae'r cynnig yn 2024-25 yn cynnig y mathau canlynol o ddarpariaeth:

- Hunanastudio gyda chefnogaeth tiwtor
- Ystod o gyrsiau i gynorthwy-wyr Dysgu Dysgu Sylfaen
- Ymagwedd ysgol gyfan i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, a chreu ethos Gymraeg mewn ysgol
- Cyrsiau dysgu bloc
- Cyrsiau preswyl
- Cyrsiau ar gyfer ysgolion unigol neu glystyrrau
- Cyrsiau wedi'u targedu i ysgolion penodol, yn unol â thargedau CSGA yr Awdurdod Lleol

Mae'r cynnig hefyd wedi targedu'r meysydd o dwf fyddai ei angen ar ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf i'r dyfodol e.e drwy ddarparu cwrs ar ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn gwersi Addysg Gorfforol yn y sector Uwchradd gyfrwng Saesneg.

Mae'r cynnig uchod ar gael o lefel Mynediad (A1) gyda at lefel Gloywi (C1).

Mae'r cynnig i gyd yn rhad ac am ddim.

Mae'r cynnig wedi'i gyflwyno i ystod o randdeiliad, a chyfarfod wedi'i gynnal gyda phob un Awdurdod Lleol er mwyn adnabod anghenion a threfnu darpariaeth briodol.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi gweithio gyda darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon eleni. Mewn ymateb i adroddiad thematig Estyn ar y ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau iaith darpar athrawon mae'r Ganolfan wedi creu Adnodd Dysgu penodol ar gyfer y sector. Mae'r Adnodd yn cwrdd â'r meini prawf i ddarparu 35 awr o ddatblygu sgiliau iaith personol yn ystod y cwrs, ac wedi'i lunio ar bob haen o'r cwricwlwm Dysgu Cymraeg (A1-C1). Mae sicrhau perthynas gyda chyrsiau Dysgu Cymraeg ar gychwyn gyrfa yn fodd effeithiol o barhau menw cyswllt â'r darpar athrawon i gynnig mwy o gyfleoedd iddynt ar hyd eu gyrfa.

**Camau nesaf**

Mae ymateb cychwynnol i'r rhaglen wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda dros 800 o'r Gweithlu Addysg yn barod wedi cofrestru ar y cyrsiau ers Medi 2024. Nod y cynllun yw darparu ar gyfer hyd at 2,000 o'r Gweithlu Addysg erbyn Medi 2025.

Bydd Haf 2025 yn gyfle i arfarnu effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf y cynllun, a diwygio ymhellach i gwrdd â gofynion ysgolion. Mae seiliau cadarn eisoes wedi'u gosod sy'n caniatau datblygu'r ddarpariaeth ymhellach i'r dyfodol.

Tra bod y cynnig i'r Gweithlu Addysg am ddim, mae'n amlwg yn her gynyddol i ysgolion ryddhau athrawon a chynorthwy-wyr o'u dyletswyddau i'w caniatau i elwa o'r cynnig. Wrth i'r adolygiad haen ganol fynd rhagddo, a threfniadau newydd gael eu datblygu, bydd angen sicrhau eglurder bod cyllid digonol oddi fewn i elfen Grant y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol i gefnogi amser rhyddhau staff.

Mae'r Ganolfan yn ffyddiog bod modd yn bendant i dyfu'r cynllun ymhellach a thrwy hynny boddio anghenion niferoedd uwch o'r Gweithlu Addysg, ac yn ei dro cyflawni nodau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Bil Addysg a'r Gymraeg (Cymru).

## Welsh Language and Education (Wales) Bill

**Additional information from the Welsh Local Government Association (WLGA) following the evidence session on 9 October 2024**

**The WLGA agreed to provide further information on whether all local authorities agree with the Bill's statutory target of a million Welsh speakers**.

Yes, the WLGA can confirm that all local authorities agree with the Bill's statutory target of a million Welsh speakers.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-DB-10629-24

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
SeneddIechyd@senedd.cymru

25 Hydref 2024

Annwyl Russell,

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Rwy'n falch bod y rhan fwyaf o'ch Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, a hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am hynny, ac am eu hargymhellion.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion isod.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm yn helpu i lywio eich gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth yn y dyfodol agos.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

**Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Argymhelliad 1:**
**Mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).**

Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth hon i egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2:**
**Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda phartneriaid i ymchwilio i fodelau busnes na ddarperir ar eu cyfer yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n hyrwyddo egwyddorion menter gymdeithasol ond yn parhau i fod yn fodelau nid-er-elw.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried a ellir cynnwys unrhyw fodelau busnes nid-er-elw pellach yn y Bil.

Fodd bynnag, bydd yn bwysig sicrhau na fydd unrhyw fodelau pellach a gynigir yn caniatáu i elw o unrhyw fath gael ei dynnu, hyd yn oed pan fo'r rhain yn sefydliadau o'r math y byddai Llywodraeth Cymru o'u plaid yn fwy cyffredinol, er mwyn cyflawni'r nod o ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Bydd yn bwysig hefyd sicrhau mai prif ddiben/amcan unrhyw fodelau pellach a gynigir fydd lles plant neu unrhyw les cyhoeddus arall y gallai Gweinidogion Cymru ei ragnodi.

**Argymhelliad 3:**
**Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys pwerau gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau i gau unrhyw fylchau sy'n galluogi cwmnïau i dynnu elw preifat allan o ofal plant sy'n derbyn gofal, pe bai bylchau o'r fath yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Dylai rheoliadau o'r fath fod yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cytuno â phryder y Pwyllgor na ddylai'r ddeddfwriaeth ganiatáu i sefydliadau osgoi'r cyfyngiadau ar dynnu elw preifat. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau sydd yn y Bil ar hyn o bryd yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rhoi eglurder i ddarparwyr a sicrhau y gellir mynd i'r afael ag arferion sy'n tanseilio'r bwriad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. O'r herwydd, nid wyf yn credu bod ychwanegu darpariaeth bellach o'r math hwn yn ddymunol.

Rwy'n credu mai'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad yw y dylai fod gan Weinidogion Cymru rywfaint o bŵer parhaus i gyfyngu ar ymddygiadau newydd sy'n ceisio tynnu elw mewn ffyrdd annisgwyl. Hoffwn roi sicrhad i'r pwyllgor a'r Aelodau ynglŷn â'r

pwynt hwnnw drwy eich cyfeirio at y darpariaethau yn y Bil sy'n darparu y byddai trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur a wneid gan yr endidau nid-er-elw hynny sy'n wasanaethau plant o dan gyfyngiad, yn dystiolaeth y byddai'n rhaid i Weinidogion roi sylw iddi wrth benderfynu a yw darparwr yn berson addas a phriodol. Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bellach fod person yn addas a phriodol, cânt ganslo cofrestriad y person.

**Argymhelliad 4:**
**Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi cynnig manwl ynghylch y canllawiau a'r cymorth a fydd ar gael i ddarparwyr preifat ac annibynnol sy'n dymuno trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Dylid gwneud hyn ar fyrder, a dylid llunio cynllun cyfathrebu i gyd-fynd â nhw.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried pa ganllawiau a chymorth y gellid eu darparu i ddarparwyr preifat ac annibynnol sy'n dymuno trosglwyddo i fodel nid-er-elw. Bydd hyn yn adeiladu ar y cyllid a ddarparwyd yn gynharach eleni drwy Busnes Cymru i roi cymorth pwrpasol i nifer o ddarparwyr i ddechrau cynllunio ar gyfer pontio.

Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu o dan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw ac rydym wrthi'n gweithio gyda'r aelodau i gwblhau cyfres o ddeunyddiau cyfathrebu wedi'u targedu, i helpu gwahanol rannau o'r sector i ddeall darpariaethau allweddol y Bil a'u heffeithiau disgwyliedig. Byddwn yn cyhoeddi'r rhain ar ôl i'r aelodau gael y cyfle i gyfrannu ac ar ôl i'r sector yn ehangach gael y cyfle i gyfrannu lle bo hynny'n briodol.

**Argymhelliad 5:**
**Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir i lefel y cyllid a'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau lleol yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod trosiannol i gefnogi'r agenda 'dileu elw'. Fel isafswm, dylai hwn amlinellu'r cyllid ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn gyfnod hollbwysig i awdurdodau lleol o ran datblygu eu darpariaeth eu hunain.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ymrwymiad hwn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a'n bwriad yw parhau i flaenoriaethu ein cymorth ariannol i awdurdodau lleol i weithredu'r ymrwymiad dileu elw, gan gydnabod yr angen i reoli cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru o fewn canlyniadau cylchoedd cynllunio'r gyllideb ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae swyddogion wrthi'n cynnal cyfarfodydd unigol â phob awdurdod lleol i drafod cynllunio ar gyfer rhoi'r cynlluniau ar waith yn eu hardaloedd, a'r lefelau disgwyliedig o refeniw a chyfalaf y bydd eu hangen arnynt ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ar ôl i'r trafodaethau hyn gael eu cwblhau, byddant yn llywio ein gwaith o ystyried y symiau cyllid a'r trefniadau ar eu cyfer yn y blynyddoedd ariannol sydd i ddod.

**Argymhelliad 6:**
**Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, gyda manylion y canlynol:**

- **y gwaith a wnaed gan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi 'dileu elw' hyd yn hyn;**
- **y gwerthusiad mwy ffurfiol o'r Bil a gynigiwyd gan y Gweinidog, gan gynnwys pwy fydd yn rhan o'r adolygiad hwn, ei gylch gorchwyl a pha mor aml y bydd yn adrodd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor erbyn 11 Ebrill 2025 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw o ran monitro'r polisi hyd yma, ac i rannu unrhyw syniadau cychwynnol am y gwerthuso hyd yn hyn. O fewn yr ymateb hwnnw, byddaf hefyd yn nodi fy syniadau ynghylch sut y bydd y gwerthuso ffurfiol yn cael ei gynnal.

**Argymhelliad 7:**
**Dylai'r Gweinidog ystyried argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n seiliedig ar ei waith craffu helaeth ar y maes polisi hwn, sef "y dylid diwygio Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) i'w gwneud yn orfodol i ofalwyr maeth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn darparu lleoliadau maeth i blant sy'n derbyn gofal, a thrwy hynny gyflymu'r cynnydd tuag at sefydlu cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth", ac ymateb i'r argymhelliad hwnnw.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n hapus i ystyried argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac i ymateb iddo. Rwyf eisoes wedi nodi'n glir fy mod yn hapus i edrych ymhellach ar sut y byddai cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth yn gweithio a sut y gallai ychwanegu gwerth.

Fodd bynnag, byddai cyflwyno newid o'r fath yn gofyn am ymgynghori â phob rhan o'r sector. Bydd angen amser priodol i wneud hyn yn iawn. Nid wyf felly o'r farn mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng cywir ar gyfer datblygu'r gwaith.

**Argymhelliad 8:**
**Dylai'r Gweinidog adolygu'r dystiolaeth gan randdeiliaid sy'n nodi eu pryderon sylweddol ynghylch amserlenni'r broses drosiannol a gynigir gan Lywodraeth Cymru, a'u potensial i waethygu'r problemau presennol mewn perthynas â darpariaeth ddigonol, er mwyn sicrhau ei hun bod modd cyflawni'r polisi o fewn yr amserlenni a gynigir, heb gael effaith andwyol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law yn ofalus, yn ogystal â'r wybodaeth a gasglwyd drwy ein gwaith ymgysylltu ni ein hunain â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 9:**
**Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cynnydd o ran trosglwyddo i'r model nid-er-elw. Dylai hyn gynnwys diweddariad, fesul awdurdod lleol, ar nifer y lleoliadau sy'n gadael y farchnad a nifer y lleoliadau newydd a grëwyd, a dylai fyfyrio ar sefydlogrwydd y lleoliadau presennol. Dylai hefyd gynnwys manylion yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc y mae'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig gweithredol o eiriolaeth. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, gan ddechrau o ddyddiad dadl Cyfnod 1.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn trefnu i gyhoeddi adroddiad cynnydd bob chwe mis gyda'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiad cyntaf erbyn 22 Ebrill 2025 (6 mis ar ôl y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol).

**Argymhelliad 10:**
**Dylai'r Gweinidog sicrhau bod unrhyw ganllawiau neu God Ymarfer a gyhoeddir mewn perthynas ag adran 13 yn cadarnhau nad yw'r Bil yn atal awdurdodau lleol rhag lleoli plentyn mewn lleoliad atodol cyn cael cymeradwyaeth Weinidogol, a bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliadau, os oes angen. Dylai canllawiau o'r fath bwysleisio na ddylai defnyddio lleoliadau atodol ddod yn sefyllfa ddiofyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Cod Ymarfer neu'r canllawiau yn rhoi eglurder ar y materion hyn.

**Argymhelliad 11:**
**Dylai'r Gweinidog baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar leoliadau atodol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan y Bil. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys data dienw ar faterion sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ystod oedran y plentyn; awdurdod lleol; y math o leoliad y gofynnir amdano (maethu er elw, er elw, preswyl, y tu allan i'r sir, y tu allan i Gymru, anghofrestredig); a oedd y plentyn eisoes yn y lleoliad, ystod cost). Rhaid i eithriad fod yn berthnasol i unrhyw adroddiad a gynhyrchir yn unol â'r argymhelliad hwn, i'r perwyl na ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw ddata a fyddai, o'u darllen ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd, yn galluogi unrhyw unigolyn i gael ei adnabod. Dylai'r Gweinidog gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Er nad wyf o'r farn bod angen cynnwys y gofyniad hwn yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd o bryd i'w gilydd ar y sefyllfa o ran cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i leoliadau atodol.

**Argymhelliad 12:**
**Wrth gywiro paragraff 55 o’r Nodiadau Esboniadol i ddileu’r term lleoliad ‘anghofrestredig’, dylai’r Gweinidog ei gwneud yn glir bod lleoliadau nad ydynt wedi’u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn anghyfreithlon ac na ddylid eu defnyddio fel ‘lleoliadau atodol’ nac o dan unrhyw amgylchiadau eraill.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Nid yw lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn dod o fewn cwmpas ‘lleoliadau atodol’ ac felly ni allent fod yn destun cais gan awdurdod lleol i'w cymeradwyo o dan adran 81B. Er ein bod o'r farn nad y Nodiadau Esboniadol yw'r cyfrwng priodol i egluro hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn glir i'r awdurdodau lleol pan fyddwn yn dechrau'r gwaith manwl o lunio canllawiau i helpu i roi'r broses lleoliadau atodol ar waith.

**Argymhelliad 13:**
**Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynhyrchu adnoddau hygyrch gyda’r nod o hysbysu plant a phobl ifanc am y Bil a sut i fynegi eu barn arno.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel rhan o'n gwaith cyfathrebu wedi'i gynllunio a anelir at wahanol rannau o'r sector, mae Lywodraeth Cymru wedi llunio dogfen ddrafft ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n egluro elfennau allweddol y Bil a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw. Ar hyn o bryd rydym yn ei hadolygu gydag aelodau Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw, ac yn disgwyl gallu ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion cyfathrebu parhaus yn cael eu hystyried.

**Argymhelliad 14:**
**Dylai’r Gweinidog ddiwygio’r Bil i gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc y gallai’r Bil effeithio ar eu trefniadau gofal.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n derbyn y dylai plant gael cynnig gweithredol o eiriolaeth ar gyfer pob math o leoliad a phob lleoliad daearyddol. Mae eiriolaeth ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal eisoes yn ofyniad statudol, felly nid oes angen i'r Bil gynnwys y ddarpariaeth hon.

Mae adran 178 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu dyletswydd yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i bersonau penodedig. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, gan sicrhau bod gan y plant hyn fynediad at wasanaethau eiriolaeth os oes angen help arnynt i:

- Fynegi eu barn (boed ar fater penodol, cynllun gofal neu benderfyniadau o ddydd i ddydd).
- Deall eu hawliau (o ran trefniadau gofal neu achosion cyfreithiol).
- Cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal a'u llesiant.

- Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth i'w helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal. Mae hwn yn gynnig gweithredol, sy'n golygu bod rhaid cynnig gwasanaeth eiriolaeth yn rhagweithiol i'r plant hyn, yn hytrach nag aros iddynt ofyn amdano.

**Argymhelliad 15:**
**Dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 10 o'r Bil i'w gwneud yn glir:**

- **mai ystyr lleoli plentyn "yn agos i" ardal yr awdurdod lleol yw awdurdod lleol ffiniol neu gyfagos, ac**
- **y dylid ond defnyddio'r ddarpariaeth hon mewn amgylchiadau eithriadol**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn, er fy mod yn ymrwymo i adolygu'r Nodiadau Esboniadol er eglurder.

Rwy'n derbyn y gallai fod yn ddefnyddiol cael rhywfaint o destun ychwanegol yn y Nodiadau Esboniadol i helpu'r darllenydd i ddeall sut y dylid dehongli "yn agos i". Nid wyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r defnydd o'r ddarpariaeth gael ei gyfyngu i amgylchiadau eithriadol heb ddiffinio beth allai'r rhain fod. Nid ydym chwaith yn credu ei bod yn ymarferol gwneud hynny pan fo potensial ar gyfer ystod mor eang o amgylchiadau sy'n benodol i achosion plant unigol.

Bydd yr Aelodau yn nodi hefyd bod yr ymadrodd "yn agos i" yn cael ei fewnosod yn y ddyletswydd gyffredinol i awdurdod lleol sicrhau llety digonol o'r math perthnasol, yn hytrach nag mewn dyletswydd ynghylch lleoli plant unigol, felly nid yw'n glir a fyddai diwygio yn gweithio yn y ffordd a ragwelir.

**Argymhelliad 16:**

**Dylai'r Gweinidog amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o drefniadau adrodd gorfodol gan sefydliadau ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Dylai wneud hyn mewn da bryd i ganiatáu i'r Aelodau ystyried ei hymateb a chyflwyno gwelliannau i'r Bil os nad ydynt yn credu bod y camau hyn yn ddigonol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddwn yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau adrodd presennol sydd ar sefydliadau, gan fanylu ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni ac yn parhau i'w gyflawni yng Nghymru.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol fod rhaid i unigolion y datgelwyd iddynt, a welodd eu hunain, neu a welodd dystiolaeth arall fod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol neu'n wynebu risg o hynny, adrodd am hynny yn ddi-oed. Mae ein dyletswyddau presennol, a'r gweithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu, yn ategu hyn, a'u nod yw helpu i ddiogelu plant, ac oedolion ag anghenion gofal a chymorth, ac atal unrhyw niwed iddynt.

Yng Nghymru, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gydweithio'n agos â phartneriaid allweddol er mwyn cryfhau a gwella cydymffurfedd â'r gofynion diogelu, sydd eisoes ar waith, ar draws ein lleoliadau rheoleiddiedig ym maes gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gofal Plant, gan gryfhau'r safon sy'n ymwneud â diogelu; ac wedi cyhoeddi Fframwaith Ansawdd drafft ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, sy'n cynnwys safon ansawdd yn ymwneud â diogelu babanod a phlant ifanc rhag pob math o niwed.

Bydd y Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yn tynnu sylw ymhellach at gyfrifoldebau awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan yn diogelu ac yn hyrwyddo llesiant plant ac oedolion; a bydd yn eu hannog i hyrwyddo Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn eu gweithgareddau comisiynu.

Yn ystod gweddill tymor y Senedd hon, rydym yn bwriadu ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau pellach ar y ffordd orau o sicrhau bod gan eraill sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion, a allai fod yn cael eu cam-drin neu'n wynebu risg o hynny, drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith.

Bydd cyfres o drafodaethau bord gron gyda rhanddeiliaid yn dechrau ym mis Tachwedd i gael clywed eu barn ar osod dyletswyddau adrodd gorfodol ar unigolion.

O ystyried difrifoldeb y newid hwn, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'r daith.

**Argymhelliad 17:**

**Dylai'r Gweinidog roi diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r ganolfan ganolog i gefnogi'r gwaith o weithredu taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai hyn gynnwys manylion ei statws gweithredol presennol, niferoedd y staff, costau gweithredu a nifer y bobl sy'n cael cyngor a chymorth. Dylid ei gynhyrchu o fewn chwe mis i ddadl Cyfnod 1, ac yn flynyddol wedi hynny.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddariadau hyn ar ddatblygiad yr hwb canolog wrth iddo gael ei sefydlu.

**Argymhelliad 18:**

**Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer 'hawl i wybodaeth, cyngor a chymorth' i unigolion sy'n awyddus i hawlio taliadau uniongyrchol am ofal iechyd parhaus. Dylai unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o dan y ddarpariaeth hon gynnwys gwybodaeth am drosglwyddo rhwng gofal**

**cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus, a dylent hyrwyddo parhad gofal cyn belled ag y bo modd.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i gefnogi'r broses o hawlio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus. Cyhoeddwyd llyfryn gwybodaeth ar gyfer unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn 2022 ar ôl i Fframwaith Gofal Iechyd cyfredol y GIG gael ei gyhoeddi. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth am y taliadau uniongyrchol sydd ar gael i unigolion sydd, neu a allai fod, â hawl i Ofal Iechyd Parhaus. Mae pŵer eisoes yn yr adran 10C newydd (i'w mewnosod yn Neddf 2006 gan adran 24(2) o'r Bil) sy'n golygu y bydd modd ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd drefnu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol. Felly, nid wyf yn credu bod angen diwygio'r Bil.

Yn ogystal, mae cynlluniau eisoes ar waith i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i unigolion drwy gyflwyno Hwb cymorth ar gyfer taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Bydd yr Hwb yn codi ymwybyddiaeth o'r taliadau uniongyrchol sydd ar gael, yn ogystal â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai sydd â diddordeb mewn cael taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Rhoddir sylw penodol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall ar gyfer y trosglwyddo o daliadau gofal cymdeithasol i daliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus. Cedwir y cysylltiadau â'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdodau lleol a'r trydydd sector i'r rhai sy'n cael taliadau uniongyrchol gofal cymdeithasol. Bydd hynny'n sicrhau bod cysylltiadau cyfarwydd a dibynadwy ar gael hefyd i'r rhai sy'n trosglwyddo i gael taliadau uniongyrchol y GIG ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

**Argymhelliad 19:**
**Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i bryderon rhanddeiliaid mai taliadau uniongyrchol yw'r unig opsiwn sydd ar gael weithiau, mewn ardaloedd gwledig yn benodol, yn absenoldeb gwasanaethau eraill. Dylai weithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw gyfyngiadau ar wasanaethau yn yr ardaloedd hyn a'r ffordd orau o gefnogi'r unigolion y mae'r cyfyngiadau'n effeithio arnynt.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pryderon hyn ymhellach a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw gyfyngiadau ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig a'r ffordd orau i'r byrddau iechyd lleol a phartneriaid eraill fynd ati i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

**Argymhelliad 20:**
**Dylai'r Gweinidog roi diweddariad o bryd i'w gilydd yn amlinellu ei hasesiad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud i baratoi byrddau iechyd ar gyfer eu cyfrifoldebau newydd yn y maes hwn. Dylid gwneud hyn bob chwe mis, a dylai ddechrau ar ôl i ddadl Cyfnod 1 gael ei chwblhau. Fel rhan o hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau**

**bod byrddau iechyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddysgu o'u profiadau a'u harferion gorau.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn rhoi diweddariadau ar hynt gwaith y byrddau iechyd wrth iddynt baratoi i ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd hyn.

**Argymhelliad 21:**
**Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom ymhen chwe mis gyda diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu'r fframwaith perfformiad a'r cynllun gweithredu newydd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar ddirprwyo tasgau priodol yn ddiogel a manylion y metrigau a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer taliadau uniongyrchol er mwyn gallu mesur cynnydd a llwyddiant.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun gweithredu a fydd yn nodi'r materion sy'n hysbys o ran y Fframwaith Cenedlaethol cyfredol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, ac yn mynd i'r afael â nhw. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys ailddatblygu ac ailgyflwyno'r fframwaith perfformiad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio gofynion canllawiau ar gyfer dirprwyo tasgau yn ddiogel.

**Argymhelliad 22:**
**Dylai'r Gweinidog:**

- **fonitro'r gwariant gan fyrddau iechyd dros dair blynedd gychwynnol y polisi, ac adrodd yn ôl ar ddiwedd y cyfnod hwn ar sefyllfa ariannol byrddau iechyd o ran eu gallu i barhau i ariannu a darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus, a**
- **pharhau i fonitro ac adolygu gwariant gan fyrddau iechyd ar y polisi hwn yn y dyfodol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gwariant ac effaith ariannol darparu taliadau uniongyrchol i fyrddau iechyd dros dair blynedd gyntaf y polisi fel rhan o'r gwaith gwerthuso.

Y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw bydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn cael ei lywio gan ganlyniad y gwaith gwerthuso.

**Argymhelliad 23:**
**Dylai'r Gweinidog weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet a phartneriaid ehangach i hyrwyddo rôl y Cynorthwyydd Personol, i gynyddu nifer y ceisiadau ac i wella cyfraddau cadw staff yn y tymor hwy. Bydd hyfforddiant priodol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. Bydd hyfforddiant priodol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Yn dilyn gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sefydlwyd y Grŵp Rhanddeiliaid Cynorthwywyr Personol presennol o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, ac yn gynharach eleni cytunodd y Grŵp i fwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlynol: Tâl; Telerau ac Amodau; Hyfforddiant a Datblygu; Hyrwyddo Undebau Llafur a hyrwyddo'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i gynorthwywyr personol. Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cynorthwywyr Personol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Llywodraeth, Undebau Llafur, Gofal Cymdeithasol Cymru a chynrychiolwyr cyflogwyr ar gyfer cynorthwywyr personol.

Yn ogystal, y llynedd datblygwyd "Gweithgor Cynorthwywyr Personol Cymru" sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol. Ei nod yw sicrhau telerau ac amodau gwell ar gyfer cynorthwywyr personol a sefyllfa gydradd ar draws yr awdurdodau lleol. Mae'r ddau grŵp hyn yn cydweithio'n agos i sicrhau cysylltiadau clir a dealltwriaeth o ba waith sy'n digwydd i wella'r rôl ar gyfer cynorthwywyr personol.

Rhai o'r camau sydd eisoes ar waith yw cynnwys cynorthwywyr personol yn y gwaith o ddatblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod tâl a dilyniant cynorthwywyr personol yn rhan o'r ystyriaethau yng nghyd-destun y gweithlu ehangach yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi comisiynu arolwg sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar draws yr awdurdodau lleol i ganfod pa hyfforddiant sydd ar gael i gynorthwywyr personol ac a oes cysondeb ledled Cymru o ran y ffordd yr eir ati. Rydym yn disgwyl canlyniadau'r arolwg hwn yn fuan a byddwn yn ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau dull hyfforddi teg a chenedlaethol ar gyfer cynorthwywyr personol yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod gwerth ein cynorthwywyr personol ac rydym wedi ymrwymo i wella eu telerau a'u hamodau er mwyn annog mwy o bobl i ymgymryd â'r rôl, ond hefyd i gadw'r gweithwyr ymroddedig hynny sydd eisoes yn gwneud y gwaith.

**Argymhelliad 24:**
**Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor, ar ôl cwblhau'r adolygiad o'r fframwaith Gofal Iechyd Parhaus, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau a chanllawiau cymhwystra ychwanegol a ddarparwyd o ganlyniad i'r adolygiad.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu briff ar ba elfennau o'r Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus sydd wedi newid yn dilyn adolygiad.

**Argymhelliad 25:**
**Dylai'r Gweinidog sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn nodwedd amlwg o'r canllawiau a gyhoeddir ar Ran 2 o'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Paragraff 65 o'r Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi: “wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.” Yn yr un modd, byddai unrhyw ganllawiau a gyhoeddid ar Ran 2 o'r Bil sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol mewn gofal iechyd parhaus yn tynnu sylw at bwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

**Argymhelliad 26:**
**Dylai'r Gweinidog:**

- **sicrhau bod yr adolygiad ar ôl gweithredu’r Bil yn ystyried yr ymwybyddiaeth, ymhlith defnyddwyr gofal cymdeithasol, o’r opsiwn newydd o daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;**
- **cytuno i ryddhau setiau data’r Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi’u bwriadu i roi darlun o’r nifer sy’n manteisio ar daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus ledled Cymru, a**
- **darparu manylion yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad ar ôl gweithredu’r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd y gwerthusiad o'r gwaith o gyflwyno taliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus yn ystyried pa mor ymwybodol yw defnyddwyr gofal cymdeithasol o'r opsiwn o daliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Bydd y gwerthusiad hefyd yn cynnwys cael y setiau data gan y Byrddau Iechyd Lleol. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ddeall faint o bobl sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru.

Nid yw amserlenni'r gwerthusiad wedi'u pennu eto ond bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn wrth roi diweddariad maes o law ar y gwaith gweithredu.

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

**Ymateb i gwestiynau ychwanegol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn deillio o dystiolaeth lafar Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a roddwyd ar 9 Hydref 2024.**

Mae CGA yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle i roi tystiolaeth ychwanegol yn rhan o'i ymchwiliad i Fil y Gymraeg ac Addysg. Yn unol â'r cais, mae'r nodyn hwn yn trafod rhai o'r ffactorau allweddol y credwn eu bod yn arwyddocaol wrth ddylanwadu ar ddarpar athrawon sy'n ystyried ymuno â'r proffesiwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i llywio gan wybodaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys y data unigryw sydd gennym ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg a'n hymgysylltiad rheolaidd â chofrestreion, rhanddeiliaid, a darpar athrawon.

Ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar unigolion i ymuno â'r proffesiwn:

**Cymhelliad cynhenid/brwdfrydedd i addysgu**

Mae llawer o athrawon yn ymuno â'r proffesiwn oherwydd eu bod yn angerddol dros gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas, a dyfodol plant yn benodol. Mae brwdfrydedd dros eu pwnc a thros ysbrydoli plant mewn addysg yn gallu bo yn gymhelliad allweddol hefyd. I lawer sy'n ymuno â'r proffesiwn, mae addysgu'n yrfa gwerth chweil lle y teimlant y gallant 'wneud gwahaniaeth'.

**Sicrwydd swydd**

Canfyddir yn gyffredinol fod addysgu'n broffesiwn sefydlog a diogel. Bydd angen athrawon o hyd ac mae llwybrau gyrfa clir ac wedi'u hen sefydlu ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno camu ymlaen. Yn Arolwg Cenedlaethol y Gweithlu Addysg 2021 (a gynhaliwyd gan CGA mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, undebau llafur, cyflogwyr a chyrff allweddol sy'n cynrychioli gweithwyr addysg proffesiynol), pan ofynnwyd i athrawon ysgol ble'r oeddent yn gweld eu hunain ymhen tair blynedd, dywedodd 62.6% eu bod yn gweld eu hunain yn parhau i ddatblygu a chryfhau eu hymarfer, dywedodd 20.9% eu bod yn bwriadu symud ymlaen i rôl uwch a dywedodd 16.1% yr hoffent fentora neu gynorthwyo cydweithwyr llai profiadol. Mae hyn yn dangos bod mwyafrif y rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn yn ceisio hirhoedledd yn eu dewis yrfa

**Mentrau Llywodraeth Cymru**

Mae'n bwysig nodi nifer o fentrau cadarnhaol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i ddenu darpar athrawon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn nodedig:

- diwygio Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru, sy'n deillio o adroddiad yr Athro John Furlong Addysgu Athrawon Yfory. Mae'r diwygio, oedd yn ceisio darparu AGA cyson o safon uchel, wedi cynnwys newidiadau rheoleiddiol ar gyfer achredu rhaglenni AGA, a chyflwyno meini prawf achredu. Mae'r meini prawf a nodir yn y weledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru, gweledigaeth ar gyfer dysgu myfyrwyr ymarfer dysgu, gofyniad ar gyfer cydberchnogaeth ac atebolrwydd rhaglenni AGA,

gyda rôl ganolog ar gyfer ysgolion, a rôl glir ar gyfer prifysgolion, a'r strwythurau angenrheidiol, prosesau, a mewnbynnau

- disodli'r gofyniad i unigolion fod wedi cyflawni TGAU gradd B mewn Saesneg neu Gymraeg ac mewn Mathemateg i astudio TAR (gradd C bellach)
- cynnydd nodedig yn nifer y lleoedd TAR cyflogedig sydd ar gael o fewn addysg Gynradd/Uwchradd
- cyflwyno llwybrau rhan-amser i addysgu
- y Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth (sy'n darparu grant £15,000 i astudio rhaglen AGA mewn pynciau penodol â blaenoriaeth)
- y Cynllun Cymhelliant Ethnig Leiafrifol (sy'n ceisio cynyddu nifer yr athrawon ethnig leiafrifol trwy ddarparu grant o £5000)
- cynllun Iaith Athrawon Yfory (sy'n darparu cymhelliant £5000 i fyfyrwyr sy'n astudio i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc)
- ffurfio Addysgwyr Cymru yn 2019, gan fanteisio ar swyddogaeth ddeddfwriaethol CGA i hyrwyddo gyrfaoedd ym myd addysg

<u>Cyfyngiadau posibl ar recriwtio athrawon:</u>

**Cystadleuaeth rhwng cyflogwyr am raddedigion**

Mae gan raddedigion prifysgol, yn arbennig y rheiny sy'n arbenigo mewn pynciau blaenoriaeth AGA ddewis amrywiol wrth ddewis pa lwybr gyrfa i gymryd, gyda chyflog a buddion yn ffactorau yn eu penderfyniadau. Mae nifer o sefydliadau sy'n cyflogi graddedigion yn gallu cynnig nifer o fuddion sylweddol nad ydynt ar gael mewn addysgu, gan gynnwys bonws ariannol (all fod yn sylweddol), gweithio hyblyg, cynnydd cyflog cyflym, car cwmni, a chyfleoedd i weithio dramor.

Mae arolwg Ymchwil Graddedigion Cibyl y DU yn rhestri cwmnïau technoleg fel Google, Amazon, a Microsoft ymysg y pum cyflogwr mwyaf poblogaidd yn y DU, wedi eu dewis gan fyfyrwyr a graddedigion. Mae'r cwmnïau hyn yn gallu denu graddedigion drwy gynnwys hyblygrwydd cynhwysol, rhyddid i fod yn greadigol, a gweithle anfiwrocrataidd lle caiff syniadau eu croesawu a'u meithrin. Maent hefyd yn cynnig nifer o fuddion i gyflogeion fel cymorthdaliadau ceir hybrid, cyfranddaliadau yn y cwmni, mynediad at driniaeth iechyd, deintyddol, a lles am ddim, ardaloedd gemau, a phodiau cysgu. Yn ogystal, mae cyflogau o fewn y cwmnïau yn atyniadol gyda chynnydd cyflog clir, sydd wedi ei anelu at ddargadw a datblygu staff.

**Llwyth gwaith**

Roedd 70.4% o'r athrawon ysgol a ymatebodd i Arolwg Cenedlaethol y Gweithlu Addysg 2021 naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y gellir ymdopi â'u llwyth gwaith o fewn eu horiau gwaith cytunedig. Roedd yr arolwg yn nodi bod athro ysgol llawn amser, yn gweithio 56 awr ar gyfartaledd mewn wythnos waith.

Yn ymateb i Arolwg Cenedlaethol y Gweithlu Addysg 2021, roedd 38.7% yn anghytuno, ac 11.9% yn anghytuno'n gryf bod ganddynt ddigon o amser ar gyfer cynnwys y cwricwlwm, a sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn, fel arfer. Ers cynnal yr arolwg hwn, mae'n debygol y bydd blaenoriaethau eraill a gyflwynwyd wedi effeithio ar y canfyddiadau hyn ymhellach, yn nodedig cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

**Hyblygrwydd/cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith**

Mae llawer o raddedigion yn ffafrio proffesiynau lle gallant gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys llwyth gwaith y gellir ymdopi ag ef a disgwyliadau rhesymol ar gyfer gweithio y tu allan i 'oriau swyddfa' arferol. Mae mwy o weithio hyblyg yn cynnig buddion sylweddol i'r rhai sydd ag ymrwymiadau eraill, fel cyfrifoldebau gofalu. Er y gallai fod opsiynau i athrawon gywasgu eu horiau neu archwilio gweithio'n rhan-amser, mae proffesiynau eraill yn gallu denu graddedigion gyda buddion fel oriau hyblyg, cronni absenoldeb fflecsi ac (yn enwedig ar ôl COVID-19) yr opsiwn i weithio gartref. Mae athrawon yn elwa o lwfansau gwyliau hael, ond mae llawer yn dadlau ei bod yn ofynnol iddynt dreulio cryn dipyn o amser yn ystod cyfnodau gwyliau yn gwneud gwaith cynllunio, marcio a gwaith papur arall. Dim ond ychydig o amser sydd ar ôl i fyfyrio, gwerthuso, ymchwil, a datblygiad proffesiynol, sy'n effeithio bodlonrwydd swydd yn y pen draw.

**Atebolrwydd**

Mae athrawon yn wynebu disgwyliadau uchel o ran safonau addysgol, deilliannau myfyrwyr, cynnal hyder rhieni a'r cyhoedd, a chadw at y cwricwlwm. Maen nhw hefyd yn wynebu gwerthusiadau mynych, arolygiadau a chraffu o fath arall, fel cyhoeddi canlyniadau arholiadau. Gall craffu o'r fath achosi straen a chymryd llawer o amser, gan ychwanegu at lwyth gwaith athrawon a chyfyngu ar annibyniaeth unigol. Fe allai'r diwylliant hwn atal darpar athrawon rhag ymuno â'r hyn yr ystyrir ei fod yn amgylchedd pwysau uchel lle mae llwyddiant weithiau wedi'i ddiffinio'n gul, ac yn aml wedi'i gysylltu â ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth athrawon, fel cefndir economaidd-gymdeithasol disgyblion a phroblemau adnoddau. Gall ffactorau fel hyn effeithio ar ysgogiad i gynyddu i rolau arweinyddiaeth, neu geisio cyfrifoldebau proffesiynol ychwanegol.

**Ymddygiad**

Mae gan athrawon ysgol yr hawl i amgylchedd gweithio diogel, ond mae nifer o astudiaethau ymchwil ac arolygon gan undebau addysgu wedi nodi bod athrawon yn aml yn profi trais corfforol a geiriol o fewn yr ystafell ddosbarth, a bod angen iddynt ddyrannu mwy o amser yn amlach i dargedu ymddygiad sy'n amharu ymysg disgyblion. Oherwydd pwysau cyllidebau, yr adnoddau sydd ar gael, a'r pwysau sydd ar athrawon i dargedu ymddygiad o'r fath yn cael ei wneud yn waeth gan y cynnydd mewn maint dosbarthiadau, sy'n parhau i dyfu (roedd 674 o ddisgyblion (0.7%) mewn dosbarthiadau babanod anghyfreithlon o fawr gyda dros 30 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2024, cynnydd o'r 302 o ddisgyblion (0.3%) yn Ionawr 2023).

Mae absenoldeb disgyblion, sy'n aml yn cael ei gysylltu gyda phroblemau ymddygiadol, yn parhau i fod yn her i ysgolion, sy'n effeithio gallu athrawon i addasu a chynnal technegau rheoli ystafell ddosbarth yn effeithiol. Yn ystod y cyfnod rhwng Medi 2023 ac Ionawr 2024, fe wnaeth 10.3% o ddisgyblion gyrraedd y trothwy absenoldeb o 10% neu fwy o sesiynau wedi eu colli mewn blwyddyn academaidd. Mae ymchwil y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi "Mae ysgogiad a hunangred myfyrwyr yn effeithio ar ansawdd dysgu, graddau a pharhad ymgysylltu, a dyfnder dealltwriaeth. Dim ond pan fo myfyrwyr yn bresennol, ac yn barod yn feddyliol, ac yn fodlon dysgu, y gallant wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae ysgolion yn eu darparu...Mae triwantiaeth myfyrwyr yn brifo'r myfyriwr unigol, yn ogystal â chyfrannu at amgylchedd ddysgu aflonyddgar ac yn brifo'r holl ddosbarth pan ei fod yn dreiddiol."

Mae'r heriau hyn ac esiamplau proffil-uchel o ymddygiad gwael mewn ysgolion yn cael sylw eang yn y cyfryngau, gan effeithio ar y canfyddiadau o'r proffesiwn addysgu, ac un o'r achosion mwyaf amlwg yw'r digwyddiad lle bu trywanu yn Ysgol Dyffryn Aman yn Sir Gaerfyrddin.

**Cyflog a buddion**

Yn dilyn yr ychwanegiad 5.5% a gyhoeddwyd yn ddiweddar, cynyddodd cyflogau cychwynnol ar gyfer athrawon yng Nghymru i £32,433 o fis Medi 2024 (i fyny o £30,742 yn 2023-24). Mae athrawon hefyd yn elwa o fod yn aelodau o gynllun pensiwn cystadleuol (TPS). Mae hyn yn gystadleuol gyda nifer o gyflogai graddedigion eraill, gyda Arolwg Recriwtio Myfyrwyr (2024) y Sefydliad Cyflogwyr Myfyrwyr gyflog cychwynnol canolrifol ar gyfer graddedigion yng Nghymru o £28,000 (£32,000 ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan). Fodd bynnag, mae cyflogau cychwynnol ar gyfer athrawon yn parhau i fod yn is o lawer na’r rhai a gynigir mewn llawer o broffesiynau eraill i raddedigion (fel y gyfraith, peirianneg, neu TG).

**Datblygiad cyflog**

Gall y gyfradd datblygiad cyflog ar gyfer athrawon â rhwng un a phum mlynedd o brofiad lusgo ar ôl graddedigion a gyflogir mewn proffesiynau eraill, ac weithiau mae cyflog athrawon canol gyrfa’n sylweddol is na gweithwyr proffesiynol mewn meysydd fel y gyfraith a chyfrifeg. Gall athrawon ennill mwy trwy ymgymryd â rolau fel swyddi Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), sy’n dod â chyfrifoldebau a llwyth gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, nifer gyfyngedig o’r swyddi hyn sydd ar gael mewn ysgol ac mae’n bosibl na fydd gan rai athrawon ddiddordeb mewn ymgymryd â rolau rheoli (gan ei bod yn well ganddynt ganolbwyntio ar addysgu). Mae hefyd yn heriol i athrawon ysgol i gael contractau addysgu parhaol, gan gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cynnydd mewn cyflog ar ddechrau eu gyrfa. Mae data CGA yn dangos, o’r rhai hynny a ddatgelodd fanylion am eu contract cyflogaeth, mai dim ond 22% o athrawon newydd gymhwyso (ANGau) presennol sy’n ymgymryd â’u cyfnod Sefydlu gyda chontract cyflogaeth parhaol ar waith.

**Cyfleu’r proffesiwn**

Mae’r sylw a roddir i addysgu/athrawon yn y cyfryngau yn negyddol iawn yn aml. Mae themâu allweddol a amlygir yn fynych yn cynnwys llwyth gwaith, straen, oriau hir, a beichiau

gweinyddol. Mae heriau ymddygiad a diogelwch yn cael eu hamlygu fwyfwy, hefyd (yn enwedig yn sgil y pandemig COVID-19). Mae’r sylw hefyd yn canolbwyntio ar anfodlonrwydd ynglŷn â thâl a chyllid ysgolion yn aml. Efallai bod yr ymgynghoriad diweddar ynghylch cynlluniau i newid gwyliau ysgol, er na aeth yn ei flaen, hefyd wedi cael effaith negyddol ar y gweithlu, gan atgyfnerthu'r chwedl mai'r prif ysgogiad i ddod yn athro yw buddio o'r gwyliau ysgol (heb gydnabod y pwysau a'r straen ychwanegol a wynebir gan y gweithlu).

Yn aml, mae profiadau negyddol o fewn y gweithlu addysgu presennol yn trosi’n negeseuon anffafriol i ddarpar athrawon, sy’n treiddio trwy’r cyfryngau, ffrindiau a theulu, a hyd yn oed trwy athrawon sy’n sôn am y proffesiwn mewn modd negyddol wrth eu myfyrwyr.

Eitem 3.5

**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

12 Tachwedd 2024

Annwyl Peredur,

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy ymddangosiad yn eich Pwyllgor ar 23 Hydref, i roi tystiolaeth mewn perthynas â Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor yn teimlo i'r sesiwn fod yn ddefnyddiol.

Yn y Pwyllgor, ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth:

- yn egluro cost addysg drochi hwyr a phryd yn y cyfnod arfarnu bydd y costau hyn yn disgyn; a
- mewn perthynas â chymorth a chyllid ar gyfer darparu dysgu Cymraeg y tu allan i ysgolion, yn dilyn y drafodaeth am wasanaethau ieuenctid.

**Cost addysg drochi hwyr**

Yn naratif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh), trafodir costau trochi hwyr (Tabl 8) a chostau gweithlu (Tabl 7) gyda'i gilydd. Bydd costau'r gweithlu yn disgyn rhwng blynyddoedd 3 a 10. Nodir hyn yn Nhabl 7 ac mae'n cyd-fynd â'r tabl costau cyffredinol (Tabl 18). Dylai costau trochi hwyr ddisgyn rhwng blynyddoedd 4 a 10. Mae'r amcangyfrif cost wedi'i seiliio yn gywir ar flynyddoedd 4-10, ac mae hynny'n cyd-fynd â'r tabl costau cyffredinol (Tabl 18). Er hynny, mae gwall teipograffyddol yn Nhabl 8 - dylai 'blynyddoedd 2-10' ddarllen 'blynyddoedd 4-10'. Bydd fy swyddogion yn cywiro'r AERh cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd, cyn trafodion Cyfnod 3.

**Cefnogaeth a chyllid ar gyfer darparu dysgu Cymraeg y tu allan i ysgolion**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn annog nifer o rwydweithiau i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i leoliad yr ysgol. Yn y Pwyllgor cyfeiriodd yr Aelodau at gyfleoedd a ddarperir drwy waith ieuenctid a'r Mentrau Iaith.

Mae gan waith ieuenctid rôl hanfodol i'w chwarae wrth alluogi pob person ifanc i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'u cyfoedion yn y gymuned ac ar-lein, gan fagu hyder pobl ifanc wrth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddefnyddio mwy o'u Cymraeg. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gynigion ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys hawl newydd i waith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys disgwyliadau clir ar gyfer gwaith ieuenctid a gyflawnir yn Gymraeg, yn ogystal â mecanwaith cynllunio ac adrodd strategol diwygiedig ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae cysylltiadau clir rhwng y mecanweithiau cynllunio ac adrodd hyn a'r cynigion a nodir yn y Bil, a bydd angen gwireddu'r rhain er mwyn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc ddefnyddio a mwynhau'r iaith.

Mae'r rhwydwaith o Fentrau Iaith yn darparu ystod eang o weithgareddau a chymorth i helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau anffurfiol, y tu allan i'r ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys digwyddiadau cerddoriaeth fyw, gweithdai theatr, gweithgareddau chwaraeon a natur yn ogystal â nifer o weithgareddau diwylliannol a chelf. Mae'n ofynnol bod holl dderbynwyr y grant i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gynllunio, cefnogi ac ategu gwaith ei gilydd yn lleol. Cynhelir y trafodaethau hyn mewn fforymau iaith, a gynhelir yn bennaf yn ardal pob awdurdod lleol.  Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant craidd o £2.4 miliwn i Fentrau Iaith Cymru.

Yn ogystal, rydym yn darparu cyllid grant blynyddol o bron i £125, 000 i Glybiau Ffermwyr Ifanc Cymru i greu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys amrywiaeth o raglenni a digwyddiadau amaethyddol a rhaglenni nad ydynt yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth, megis Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc a ralïau lleol. Rydym hefyd yn cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau allanol eraill ar draws y sector gwaith ieuenctid i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwaith ieuenctid ledled Cymru, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Rwyf hefyd wedi manteisio ar y cyfle wrth ysgrifennu atoch i egluro materion pellach, a godwyd yn sesiwn y Pwyllgor ar 23 Hydref:

(i) Mae paragraffau 58 a 59 y trawsgrifiad yn nodi (Saesneg yn unig):

*Mike Hedges: Diolch, Cadeirydd. The RIA sets out transitional costs in Parts 1 to 5 of the Bill, which relate to Welsh Government staff time. Is it going to be new staff or is it opportunity costs of existing staff doing something different?*

*Mark Drakeford: These are opportunity costs.*

Hoffwn egluro bod rhai costau staff ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhan 5 o'r Bil, mae'n gost drosiannol i staff a fydd yn gweithio ar sefydlu'r corff newydd. Mae'r costau hyn wedi'u hamlinellu yn Nhablau 15 ac 16 yr AERh.

(ii) Mae paragraffau 87 ac 88 y trawsgrifiad yn nodi (Saesneg yn unig):

*Peredur Owen Griffiths: When it comes to workforce planning—and you've made the assumption that the headteacher will be doing this—and when it comes to additional support within the implementation of this, can you talk a little bit about how you've costed that into the RIA? And is most of it going to come from existing staff, or are you looking at creating new roles that will help support, or help with that workforce pressure?*

*Mark Drakeford: Well, the workforce pressure at the school level, Chair—we assume, as I said, that all the help that is currently available within the system will continue. And there are a whole series of programmes that the Welsh Government already provides, primarily through my colleague Lynne Neagle. So, we have costed into the RIA the cynllun pontio. We have included the Welsh-medium workforce capacity development grant. We have included our plans—or the Cabinet Secretary's plans—to introduce a teacher retention bursary in the Welsh language field. We've assumed that the Open University's work—which is another way in which we are able to widen the pool of people who can come into the profession—continues.*

Mae'r rhaglenni ehangach y cyfeirir atynt yn fy nghyfraniad uchod yn rhaglenni y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn eu darparu. Felly, nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr AERh gan nad yw'r costau hyn yn codi o ddarpariaethau'r Bil. Yr elfennau allweddol sy'n cefnogi iaith y gweithlu sy'n cael eu costio o fewn yr AERh yw'r cynllun sabothol presennol a'r grantiau i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n ymwneud ag ymarferwyr ysgolion. Mae'r rhain yn cyfateb i £4.37 miliwn y flwyddyn.

Diolch i'r Pwyllgor am eu diddordeb yn y Bil hwn ac edrychaf ymlaen at ystyried adroddiad y Pwyllgor, maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language